

SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

1. Diben a Chenhadaeth

Diben y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ym Mhrifysgol Caerdydd yw darparu sicrwydd a gweithgaredd ymgynghori annibynnol, gwrthrychol sydd wedi cael ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau Prifysgol Caerdydd. Cenhadaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yw gwella a diogelu gwerth y sefydliad drwy gynnig sicrwydd, cyngor a chipolygon gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn helpu Prifysgol Caerdydd i gyflawni ei hamcanion drwy ddod ag ymagwedd systematig, ddisgybledig tuag at werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli.

2. Proffesiynoldeb

Bydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn ei llywodraethu ei hun drwy lynu wrth elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys yr Egwyddorion Craidd ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol, y Cod Moeseg, y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol, a'r Diffiniad o Archwilio Mewnol. Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd o bryd i'w gilydd i uwch reolwyr ac i'r pwyllgor archwilio a risg ynghylch cydymffurfiaeth y gwasanaeth archwilio mewnol â'r Cod Moeseg a'r Safonau.

3. Annibyniaeth a Gwrthrychedd

Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn sicrhau bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn parhau i fod yn rhydd o bob amod sy'n bygwth gallu archwilwyr mewnol i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd diduedd, gan gynnwys materion yn ymwneud â dethol ar gyfer archwilio, cwmpas, gweithdrefnau, amledd, amseriad ac adrodd ar gynnwys. Os bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn penderfynu bod amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd mewn gwirionedd neu y gall ymddangos felly, bydd manylion y nam yn cael eu datgelu i'r partïon priodol.

Bydd archwilwyr mewnol yn parhau i fod ag agwedd ddiduedd sy'n eu galluogi i gyflawni eu gwaith yn wrthrychol ac yn y fath fodd fel eu bod yn credu yn eu gwaith, nad oes unrhyw gyfaddawdu o ran ansawdd, ac nad ydyn nhw'n gosod eu barn ar faterion archwilio yn ail i farn rhai eraill.

Ni fydd gan archwilwyr mewnol unrhyw gyfrifoldeb nac awdurdod gweithredol uniongyrchol dros unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n cael eu harchwilio. Yn unol â hynny, ni fydd archwilwyr mewnol yn gweithredu rheolaethau mewnol, yn datblygu gweithdrefnau, yn gosod systemau, yn paratoi cofnodion, nac yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd arall a allai amharu ar eu barn, gan gynnwys:

- Asesu gweithrediadau penodol yr oedd ganddyn nhw gyfrifoldeb drostyn nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau gweithredol ar ran Prifysgol Caerdydd neu ei chyrrff cysylltiedig.
- Cychwyn neu gymeradwyo trafodion y tu allan i'r gwasanaeth archwilio mewnol.
- Cyfarwyddo gweithgareddau unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyflogi gan Brifysgol Caerdydd nad yw'n cael ei gyflogi gan y gwasanaeth archwilio mewnol, ac eithrio

bod cyflogeion o'r fath wedi'u neilltuo'n briodol i dimau archwilio neu i gynorthwyo archwilwyr mewnol fel arall.

Os oes gan y pennaeth archwilio mewnol rolau a/neu gyfrifoldebau sydd y tu allan i archwilio mewnol, neu lle y disgwylir iddo fod â rolau, sefydlir mesurau diogelu i gyfyngu ar amhariadau ar annibyniaeth neu ar wrthrychedd.

Bydd archwilwyr mewnol yn:

- Datgelu unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd, mewn gwirionedd neu y gall ymddangos felly, i'r partïon priodol.
- Arddangos gwrthrychedd proffesiynol wrth gasglu, gwerthuso a chyfleu gwybodaeth am y gweithgaredd neu'r broses sy'n cael ei harchwilio.
- Asesu'n gytbwys yr holl ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol sydd ar gael.
- Cymryd y rhagofalon angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn osgoi dod o dan ddylanwad gormodol oherwydd eu buddiannau eu hunain neu fuddiannau pobl eraill wrth lunio barnau.

Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn cadarnhau i'r pwyllgor archwilio a risg o leiaf unwaith y flwyddyn bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn parhau i fod yn sefydliad annibynnol.

Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn datgelu i'r pwyllgor archwilio a risg unrhyw ymyrraeth a goblygiadau cysylltiedig wrth bennu cwmpas archwilio mewnol, cyflawni gwaith, a/neu gyfleu canlyniadau.

4. Awdurdod

Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd yn ymarferol i'r pwyllgor archwilio a risg (drwy'r Cadeirydd) ac yn weinyddol (h.y. gweithrediadau o ddydd i ddydd) i'r Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol. Er mwyn sefydlu, cynnal a sicrhau bod gan wasanaeth archwilio mewnol Prifysgol Caerdydd ddigon o awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau, bydd y pwyllgor archwilio a risg yn:

- Cymeradwyo ac argymhell i'r Cyngor siarter y gwasanaeth archwilio mewnol, y cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, cyllideb a chynllun adnoddau'r gwasanaeth archwilio mewnol, penderfyniadau ynghylch penodi, diswyddo a chyflog y pennaeth archwilio mewnol.
- Derbyngohobiaeth gan bennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol ar berfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol o'i gymharu â'i gynllun a materion eraill.
- Gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a phennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes cwmpas amhriodol neu gyfyngiadau ar adnoddau.

Bydd gan bennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol fynediad anghyfyngedig i'r pwyllgor archwilio a risg, a bydd yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n uniongyrchol ag ef, gan gynnwys mewn cyfarfodydd preifat heb i'r rheolwyr fod yn bresennol.

Mae'r pwyllgor archwilio a risg yn awdurdodi'r gwasanaeth archwilio mewnol i:

- Cael mynediad llawn, rhydd a heb gyfyngiadau i'r holl swyddogaethau, cofnodion, eiddo a phersonél sy'n berthnasol i gyflawni ymgysylltiad, yn amodol ar atebolrwydd am gyfrinachedd a diogelu cofnodion a gwybodaeth.

- Dyrannu adnoddau, pennu amleddau, dewis pynciau, pennu cwmpasau gwaith, cymhwyso technegau sydd eu hangen i gyflawni amcanion archwilio, a chyhoeddi adroddiadau.
- Cael cymorth gan bersonél angenrheidiol Prifysgol Caerdydd a'i chyrrff cysylltiedig, yn ogystal â gwasanaethau arbenigol eraill o'r tu mewn neu'r tu allan, er mwyn cwblhau'r ymgysylltu.

5. Cyfrifoldebau

Pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol sy'n gyfrifol am:

- Cyflwyno cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg i uwch reolwyr a'r pwyllgor archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn iddo gael ei adolygu a'i gymeradwyo.
- Cyfleu i uwch reolwyr ac i'r pwyllgor archwilio a risg am effaith cyfyngiadau adnoddau ar y cynllun archwilio mewnol.
- Adolygu ac addasu'r cynllun archwilio mewnol yn ôl yr angen er mwyn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau Prifysgol Caerdydd.
- Cyfleu i uwch reolwyr ac i'r pwyllgor archwilio a risg unrhyw newidiadau interim sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol.
- Sicrhau y caiff pob ymgysylltiad â'r cynllun archwilio mewnol ei weithredu, gan gynnwys sefydlu amcanion a chwmpas, aseinio adnoddau priodol a gaiff eu goruchwyllo'n ddigonol, dogfennu rhaglenni gwaith a chanlyniadau profi, a chyfathrebu canlyniadau ymgysylltu â chasgliadau ac argymhellion perthnasol i bartïon priodol.
- Cymryd camau dilynol ar ganfyddiadau gwaith ymgysylltu a chamau unioni, ac adrodd o bryd i'w gilydd i uwch reolwyr a'r pwyllgor archwilio a risg unrhyw gamau unioni nad ydyn nhw'n cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Sicrhau y caiff egwyddorion uniondeb, gwrthrychedd, cyfrinachedd a chymhwysedd eu cymhwyso a'u cynnal.
- Sicrhau bod y gwasanaeth archwilio mewnol gyda'i gilydd yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwyseddau eraill sydd eu hangen i fodloni gofynion y siarter archwilio mewnol, neu fel arall yn cael y wybodaeth.
- Sicrhau bod tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar Brifysgol Caerdydd a'i chyrrff cysylltiedig yn cael eu hystyried a'u cyfleu i uwch reolwyr ac i'r pwyllgor archwilio a risg fel y bo'n briodol.
- Sicrhau y caiff tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac arferion llwyddiannus ym maes archwilio mewnol eu hystyried.
- Sefydlu polisiâu a gweithdrefnau a gynlluniwyd i lywio'r gwasanaeth archwilio mewnol, a sicrhau cydymffurfiaeth â nhw.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisiâu a gweithdrefnau perthnasol Prifysgol Caerdydd, oni bai bod polisiâu a gweithdrefnau o'r fath yn gwrthdaro â'r siarter archwilio mewnol. Bydd unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei ddatrys neu ei gyfleu fel arall i uwch reolwyr ac i'r pwyllgor archwilio a risg.
- Sicrhau bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r *Safonau*, gyda'r amodau canlynol:

- (i) Os bydd y gyfraith neu reoliad yn gwahardd y gwasanaeth archwilio mewnol rhag cydymffurfio â rhannau penodol o'r *Safonau*, bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn sicrhau datgeliadau priodol ac yn sicrhau y cydymffurfir â phob rhan arall o'r *Safonau*.
- (ii) Os defnyddir y *Safonau* ar y cyd â gofynion a gyhoeddir gan gyrrff allanol, bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn sicrhau bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r *Safonau*, hyd yn oed os bydd y gwasanaeth archwilio mewnol hefyd yn cydymffurfio â'r gofynion mwy cyfyngol, er enghraifft yn achos gofynion CCAUC yn y Cod Rheolaeth Ariannol, Cod Ymarfer Archwilio.

6. Cynllun Archwilio Mewnol

Mae cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol yn cwmpasu, ond heb fod yn gyfyngedig i, archwiliadau gwrthrychol o dystiolaeth er mwyn darparu asesiadau annibynnol i'r pwyllgor archwilio a risg, rheolwyr, a phartïon allanol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli ar gyfer Prifysgol Caerdydd a chyrrff cysylltiedig â hi. Mae asesiadau archwilio mewnol yn cynnwys gwerthuso'r meysydd canlynol:

- Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol Prifysgol Caerdydd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.
- Mae gweithredoedd swyddogion, cyfarwyddwyr, cyflogeion a chontractwyr Prifysgol Caerdydd yn cydymffurfio â'i pholisïau, ei gweithdrefnau a'i deddfau, ei rheoliadau a'i safonau llywodraethu perthnasol.
- Mae canlyniadau gweithrediadau neu raglenni yn gyson â nodau ac amcanion sefydledig.
- Mae gweithrediadau neu raglenni'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon.
- Mae prosesau a systemau sefydledig yn galluogi cydymffurfio â'r polisïau, y gweithdrefnau, y cyfreithiau a'r rheoliadau a allai effeithio'n sylweddol ar Brifysgol Caerdydd.
- Mae'r wybodaeth a'r dulliau a ddefnyddir i nodi, i fesur, i ddadansoddi, i ddosbarthu ac i adrodd am wybodaeth o'r fath yn ddibynadwy ac mae ganddyn nhw onestrwydd.
- Caiff adnoddau ac asedau eu caffael yn ddarbodus, eu defnyddio'n effeithlon, a'u diogelu'n ddigonol.

Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd o bryd i'w gilydd i uwch reolwyr ac i'r pwyllgor archwilio a risg ynghylch:

- Diben, awdurdod a chyfrifoldeb y gwasanaeth archwilio mewnol.
- Cynllun a pherfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol o'i gymharu â'i gynllun.
- Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Chôd Moeseg a *Safonau*'r IIA, a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion cydymffurfio sylweddol.
- Amlygiad i risgiau sylweddol a phroblemau rheoli, gan gynnwys risgiau twyll, materion llywodraethu, a materion eraill y mae angen i'r pwyllgor archwilio a risg roi sylw iddyn nhw, neu y mae'n gofyn amdany'n nhw.
- Canlyniadau digwyddiadau archwilio neu weithgareddau eraill.
- Gofynion o ran adnoddau

- Unrhyw ymateb i risg gan reolwyr a allai fod yn annerbyniol i Brifysgol Caerdydd.

Mae pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol hefyd yn cydlynu gweithgareddau lle y bo'n bosibl ac yn ystyried dibynnu ar waith sicrwydd mewnol ac allanol arall ac ymgynghori â darparwyr gwasanaethau yn ôl yr angen. Gall y gwasanaeth archwilio mewnol gyflawni gweithgareddau cynghori a gwasanaethau cleientiaid cysylltiedig, y cytunir ar eu natur a'u cwmpas gyda'r cleient, ar yr amod nad yw'r gwasanaeth archwilio mewnol yn cymryd cyfrifoldeb rheoli.

Gellir nodi cyfleoedd i wella effeithlonrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn ystod ymgysylltiadau. Caiff y cyfleoedd hyn eu cyfleu i'r lefel briodol o reolaeth.

7. Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

Bydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn cynnal rhaglen sicrhau a gwella ansawdd a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar y gwasanaeth archwilio mewnol. Bydd y rhaglen yn cynnwys gwerthusiad o gydymffuriad y gwasanaeth archwilio mewnol â'r *Safonau* a gwerthusiad ynghylch a yw archwilwyr mewnol yn cymhwyso Côd Moeseg yr IIA. Bydd y rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol ac yn nodi cyfleoedd i wella.

Bydd pennaeth y gwasanaeth archwilio mewnol yn cyfathrebu ag uwch reolwyr ac â'r pwyllgor archwilio a risg ar raglen sicrhau a gwella ansawdd y gwasanaeth archwilio mewnol, gan gynnwys canlyniadau asesiadau mewnol (parhaus a chyfnodol) ac asesiadau allanol a gynhelir o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd neu dîm asesu annibynnol cymwysedig o'r tu allan i Brifysgol Caerdydd.

Yr Is-Ganghellor yn ei rôl fel Swyddog Atebol a Phennaeth Archwilio Mewnol

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, 21 Mawrth 2024

Cymeradwywyd gan y Cyngor, 1 Mai 2024